Beibl i Blant

yn cyflwyno

Y Brenin Golygus a Ffôl

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Janie Forest; Alastair Paterson

addaswyd gan: Lyn Doerksen

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2021 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Roedd Samuel, arweinydd a barnwr Israel, yn hen. Daeth ei feibion yn farnwyr yn ei le. Ond roedd meibion Samuel yn ddrwg. Roedden nhw'n caru arian ac yn defnyddio eu pŵer i gael arian yn anonest.

Dyma bobl Israel yn dioddef achos bod y meibion yn ddrwg. Roedd y llysoedd yn annheg. Roedd pobl yn gorfod talu arian i feibion Samuel os oedden nhw am gael help.

Roedd yn rhaid gwneud rhywbeth. Un diwrnod dyma arweinwyr Israel yn cyfarfod a gofyn i Samuel am help.

“Gad i ni gael brenin,” gofynnodd yr arweinwyr. Doedden nhw ddim am i feibion drwg Samuel eu harwain. Roedden nhw am gael brenin yr un fath â’r gwledydd eraill i gyd.



Aeth Samuel yn flin. Roedd gan Israel frenin! Duw Nerthol, Tragwyddol - fe oedd yn rheoli dros Israel. Roedd e wedi gollwng nhw'n rhydd pan oedden nhw'n gaethweision yn yr Aifft, ac wedi agor y Môr Coch o'u blaen.

Ac yna roedd e
wedi rhoi gwlad
brydferth
i Israel.

Wrth i Samuel weddio, dywedodd yr ARGLWYDD,
"Ddim ti maen nhw'n ei wrthod, ond fi. Maen nhw
wedi addoli duwiau eraill. Gwna beth maen nhw'n
ofyn a rho frenin iddyn nhw."



Dywedodd
Duw wrth
Samuel am
rybuddio'r bobl
y byddai brenin
yn hawlio treth
oddi arnyn nhw;
yn cymryd eu
caeau gorau a'u
gwinllannoedd; ...



... byddai'n cymryd eu meibion i fod yn filwyr; ac yn gwneud i'w merched weithio iddo fe.



Ond roedd y bobl am gael brenin, beth bynnag fyddai'n digwydd.

Cafodd Samuel ei arwain gan Dduw at ddyn ifanc, golygus, swil a TAL iawn – roedd e'n dalach na phawb arall. Saul oedd ei enw. Pan welodd Samuel Saul, dywedodd yr ARGLWYDD, "Bydd hwn yn frenin ar fy mhobl."



Dyma Samuel yn tywallt olew dros ben Saul a'i wneud yn frenin Israel. Wrth iddo gyflwyno Saul i bobl Israel, dyma nhw'n gweiddi, "Hir oes i'r brenin!"

Cafodd y Brenin Saul brawf yn fuan iawn wedyn. Ffurfiodd byddin Ammon gylch o gwmpas un o ddinasoedd Israel, a bygwth dallu llygad de pob dyn. Am gynllun creulon!



Clywodd y Brenin Saul am y bygythiad.
Dechreuodd baratoi ei fyddin.



Pan ddaeth y ddwy fyddin wyneb yn wyneb, dinistriodd Saul yr Ammoniaid ac achub y ddinas. Dywedodd y brenin Saul "Duw sydd wedi rhoi'r fuddugoliaeth i Israel."

Rhoddodd Duw fuddugoliaeth fawr i Saul y diwrnod hwnnw. Ond doedd Saul ddim yn anrhydeddu Duw bob amser. Un diwrnod, cyn ymladd yn erbyn y Philistiaid, cyflwynodd offrymau i Dduw.



Roedd e'n gwybod mai gwaith Samuel oedd hyn. Roedd e'n gwybod bod Duw am iddo fe ddisgwyl i Samuel gyrraedd. Ond gwrthododd Saul wrando ar Dduw!



Ar ôl i Samuel gyrraedd, dywedodd wrth Saul, "Rwyt ti wedi bod yn wirion. Dwyt ti ddim wedi ufuddhau i orchymyn yr ARGLWYDD dy Dduw. Bydd dy frenhiniaeth di yn dod i ben."

Efallai bod Saul yn meddwl bod hyn yn bechod bach. Ond mae gwrthod gwrando ar Dduw bob amser yn beth mawr.



Dro arall, cafodd Saul ei orchymyn gan Dduw i ddinistrio pobl ddrwg Amalec.
Ond gadawodd Saul a'r bobl i frenin Amalec, Agag, fyw.



Fe wnaethon nhw hefyd gadw trysorau, defaid a gwartheg. Dywedodd Saul bod nhw am gadw'r pethau hyn fel offrymau i'r ARGLWYDD.



Dywedodd Samuel wrth Saul, "Mae ufuddhau yn well na rhoi offrymau. Rwyt ti wedi gwrthod gwrando ar Dduw, ac mae'r ARGLWYDD wedi dy wrthod fel brenin Israel." Roedd yn ddrwg gan Saul ei fod wedi pechu. Ond rhy hwyr! Roedd gweddill ei fywyd yn anhapus achos ei fod e wedi gwrthod ufuddhau i Dduw.

Y Brenin Golygus a Ffôl

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

1 Samuel 8-16

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16